# CABINET

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd B.E. Brooks (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

## C191 CYHOEDDIAD –

Dechreuodd y Dirprwy Arweinydd drwy roi gwybod am rai materion cadw tŷ a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw, ei recordio ac y byddai’n cael ei lanlwytho i wefan Cyngor Bro Morgannwg cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

## C192 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## C193 CYMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH HYGYRCHEDD YSGOLION DRAFFT 2025-2027(CYF) –

Cyflwynwyd y geirda gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2024.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y cafwyd trafodaeth ddiddorol a chodwyd amrywiaeth o gwestiynau gan y Pwyllgor, yn bennaf ynghylch materion yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol i'r Cabinet fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig y cytunodd y Cabinet arnynt:

- Pwysigrwydd asesu ac ystyried anghenion y plant nad oeddent mewn addysg ac nad oeddent yn cael eu haddysgu gartref a sut roedd y Cyngor yn cyfrif amdanynt fel rhan o'r Strategaeth, gan gynnwys unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod ganddynt.

- Manteision cadarnhaol adeiladu ail Ysgol y Deri drwy gynnig capasiti ychwanegol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.

- Pwysigrwydd parhau i ddarparu gwasanaethau allgymorth arbenigol cynhwysfawr ac ystwyth sy'n cefnogi plant ag anawsterau dysgu ar draws ysgolion prif ffrwd ym Mro Morgannwg, i'r un safon uchel.

PENDERFYNWYD – Bod sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn cael eu nodi a'u cytuno fel rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C194 ADRODDIAD DIWEDDARU 6 MIS AR WASANAETHAU BWS LLEOL YM MRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y geirda gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd, 2024.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad yn y cyfarfod a'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion gan gynnwys dyfarniadau contractau a chyllid, hygyrchedd amserlenni bysus, gweithio mewn partneriaeth ranbarthol a chysylltedd.

Cafwyd trafodaeth gref a chadarn yng nghyfarfod y Pwyllgor a chodwyd nifer o gwestiynau a phwyntiau gydag Aelodau lleol yn cael cyfle i drafod materion o fewn eu wardiau eu hunain a phryderon trigolion a godwyd gyda nhw'n uniongyrchol.

Roedd pryder ynglŷn â darparu gwasanaethau bysus a thrafnidiaeth ysgolion lleol a chodwyd ymholiad penodol ynghylch disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol am ddim o Ynys y Barri i Ysgol Whitmore. Roedd yr Awdurdod yn agos at orwariant o £1.2m ar drafnidiaeth ysgol a olygai fod angen canolbwyntio ar ddyletswydd statudol neu ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i'r rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwyso.

Mynegodd y Pwyllgor bryder hefyd ynglŷn â'r trafodaethau a oedd yn digwydd ynghylch nifer y teithwyr rhwng darparwyr gwasanaethau bysus a Llywodraeth Cymru nad oeddent yn cael eu rhannu â'r Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cabinet ddefnyddio ei drafodaethau ar wahanol lefelau o Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at fwy o rannu data a'r sylwadau/materion eraill a godwyd a gafodd ei gydnabod ac a fyddai'n cael eu datblygu ar lefel Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Byddai adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2024 ynghylch ailgyflwyno gwasanaeth G1 Greenlinks.

Diolchodd y Cynghorydd John i'r Cabinet ac yn arbennig i'r Dirprwy Arweinydd am gefnogi gwasanaethau bysus yng Ngorllewin y Fro. Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Swyddogion dan sylw a oedd yn cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i wasanaethau wrth iddynt ddigwydd ac yn gweithio i gefnogi gwasanaethau ledled Bro Morgannwg.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr Awdurdod yn parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynyddu'r capasiti ar reilffyrdd wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi sylwadau Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

(2) Y byddai’r Cabinet yn tynnu sylw at fwy o rannu data a'r sylwadau/materion eraill a godwyd a byddai'n cael ei symud ymlaen ar lefel Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol.

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Ystyried cynnwys y geirda a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C195 DEFNYDD O BWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/BA) (CRAFFU – PAWB) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i hysbysu’r Cabinet bod y Prif Weithredwr wedi arfer Pwerau Argyfwng ers yr adroddiad diwethaf ar 5 Medi, 2024.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng y Prif Weithredwr

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

I hysbysu'r Cabinet.

**C196 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2026-2027 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar drefniadau derbyn i ysgolion yr Awdurdod Lleol fel sy’n ofynnol gan God Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau sydd ynddo

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r ymgynghoriad sydd ei angen i gytuno ar drefniadau derbyn Awdurdod Lleol (Atodiad A) ar gyfer holl ysgolion cymunedol Bro Morgannwg.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Dywedodd paragraff 2.3 (tudalen 6) o’r Cod Derbyn i Ysgolion (Cymru) Gorffennaf 2013 “Rhaid ymgynghori ar Drefniadau Derbyn ar gyfer pob ysgol a gynhelir rhwng

1 Medi a 1 Mawrth a chael eu pennu erbyn 15 Ebrill yn y blynyddoedd ysgol sy’n dechrau ddwy flynedd cyn y y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau’n berthnasol ynddi”.